LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Cyfarwyddiadau Sefydlog Ariannol

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care

**Rheoli Dogfen**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm |
|---|---|---|---|
| 0.1 | 02.02.2023 | AL | Drafft 1af ar gyfer sylw. |
| 0.2 | 24.02.2023 | AL | Mân newidiadau a wnaed yn dilyn sylwadau gan ffrwd waith Lywodraethu a chyllid . |
| 1.0 | 27.02.2023 | CS | Polisi a chytunwyd gan y Bwrdd. |
| 2.0 | 28.04.2023 | CS | Newid a wnaed i derfynau cymeradwyo taliadau yn dilyn penderfyniad y Bwrdd. |
| 0.3 | 25.8.23 | AM | 2ail drafft yn dilyn adborth |
| 0.4 | 13.9.23 | AM | Wedi'i ddiweddaru yn dilyn argymhellion TA |
| 0.5 | 25.10.23 | AM | Diweddarwyd yn dilyn adolygiad ag argymhellion TA |
| 0.6 | Mawrth 2024 | AM | Wedi'i ddiweddaru yn dilyn adolygiad TA ag argymhellion |
| 0.7 | Mai 2024 | AL | Cynyddu'r terfyn cyfalaf i £5,000 a'r cyfnod amorteiddio fel yr argymhellwyd gan A Lloyd |
| 0.8 | Gorffennaf 2024 | AL | Adolygu a gwirio'r holl newidiadau ers y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gwreiddiol (Chwefror 2023) yn dilyn adborth PASR 19-06-2024 |
| 2.0 | Rhagfyr 2025 | KH | Adolygiad blynyddol o'r ddogfen |
| 2.1 | Ionawr 2026 | KH | Diweddariad o'r ddogfen ar ôl adborth PASR |

**Adolygiad y ddogfen**

| Cytunwyd ar | Cytunwyd erbyn | Dyddiad adolygu nesaf wedi'i drefnu |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 27.02.2023 | Bwrdd | |
| 25.10.2023 | Bwrdd | Hydref 2024 |
| 24.07.2024 | Bwrdd | Gorffennaf 2025 |
| | Bwrdd | Ionawr 2027 |

# Cynnwys


**Cyflwyniad ........................................................................................ 1**

**Rheoliadau.........................................................................................2**

**Cyfrifoldebau.....................................................................................2**

**Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol..........................................................3**

**Cynllunio Busnes...............................................................................3**

**Dyletswydd Ariannol ..........................................................................4**

**Rheoli Cronfeydd a Rheolaeth Cyllidebau..........................................4**

**Trefniadau Bancio ..............................................................................5**

**Caffael Nwyddau a Gwasanaethau .....................................................7**

**Cymeradwyaeth Terfynau Taliad ......................................................11**

**Trefniadau Gwasanaethau a Rennir ............................................... 11**

**Asedau ............................................................................................12**

**Cofnodi a Chasglu Incwm................................................................ 13**

**Talu Staff ac Aelodau'r Bwrdd ......................................................... 13**

**Taliadau treuliau i staff, aelodau'r bwrdd a gwirfoddolwyr……14**

**Colledion: Iawndal/ Yswiriant .......................................................... 14**

**Archwiliad ........................................................................................14**

**Gwrth-dwyll ..................................................................................... 15**

**Dargadwedd Cofnodion Ariannol.....................................................15**

## Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

### 1. Cyflwyniad

1.1 Y fframwaith cyffredinol ar gyfer dirprwyo cyfrifoldeb ac atebolrwydd i Llais[1] gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu gan Ddogfen Fframwaith Llais. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfarwyddiadau ariannol sefydlog priodol.

1.2 Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn yn manylu ar y cyfrifoldebau ariannol sy'n berthnasol i bawb sy'n gweithio i Llais. Nid ydynt yn darparu cyngor gweithdrefnol manwl a dylid eu darllen ar y cyd â'r nodiadau gweithdrefnol adrannol a rheolaeth ariannol fanwl. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau bod ein trafodion ariannol yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a pholisi Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni uniondeb, cywirdeb, economi, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

1.3 Bydd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn yn weithredol fel pe baent wedi'u hymgorffori yn Rheolau Sefydlog Llais.

1.4 Os bydd unrhyw anawsterau'n codi ynghylch dehongli neu gymhwyso unrhyw un o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, yna rhaid ceisio cyngor y Cyfarwyddwr Cyllid cyn gweithredu.

1.5 Rhaid adrodd manylion llawn unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn, gan gynnwys esboniad o'r rhesymau a'r amgylchiadau, yn y lle cyntaf i Ysgrifennydd y Bwrdd, a fydd yn gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ystyried y mater yn ffurfiol a gwneud cynigion i'r Bwrdd ar unrhyw gamau i'w cymryd.

1.6 Mae methu â chydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Rheolau Sefydlog yn fater disgyblu a allai arwain at ddiswyddo unigolyn o'i gyflogaeth neu ei symud o'r Bwrdd.

[1] Llais yw'r enw gweithredu ar gyfer y Corff Llais Dinasyddion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru

## 2. Rheoliadau

2.1 Bydd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn yn cael eu llywodraethu gan y canlynol ac yn nhrefn blaenoriaeth os bydd gwrthdaro yn codi:

- Deddf Caffael 2023
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru
- Canllawiau Cyllidebu Canolog
- Dogfen Fframwaith Llais fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru

2.2 Nid yw'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn yn darparu cyngor gweithdrefnol a dylid eu darllen ar y cyd â'r gweithdrefnau a'r polisïau ariannol manwl.

## 3. Cyfrifoldebau

### Bwrdd a'i Bwyllgorau

3.1. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn perthynas â defnyddio arian cyhoeddus; ei fod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno gyda'i adran noddi, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus; a'i fod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

3.2 Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb hefyd am sicrhau ei fod yn adolygu gwybodaeth ariannol yn rheolaidd ynghylch rheolaeth Llais.

3.3 Mae adran 6 o Reolau Sefydlog Llais yn nodi darpariaeth i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgorau a allai fod wedi dirprwyo cyfrifoldebau i weithredu ar ei ran, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau a osodwyd. Mae'r cyfrifoldeb am y swyddogaethau a ddirprwywyd i bwyllgorau yn parhau gyda'r Bwrdd.

3.4 Mae paragraff 6.4 o'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys darpariaeth i'r Bwrdd benodi dau aelod allanol annibynnol sydd â'r arbenigedd proffesiynol perthnasol i bwyllgor. Gellir penodi'r unigolion hyn fel aelodau pwyllgor a gellir eu cynnwys yn y Cworwm.

**Prif Weithredwr**

3.5 Mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol am

- stiwardiaeth briodol o'r arian cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdano;
- gweithrediadau a rheolaeth Llais o ddydd i ddydd;
- sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Chanllawiau Cyllidebu Canolog.

3.6 Gall y Prif Weithredwr gael cymorth i gyflawni'r rôl gan y Tîm Gweithredol, deiliaid cyllideb, a gweithwyr eraill Llais. Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo gweinyddiaeth ddyddiol y cyfrifoldebau hyn ond mae'n parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol.

3.7 At ddibenion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn defnyddir y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfnewidiol.

## 4. Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol

4.1 Bob blwyddyn ariannol rhaid i Llais baratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).

4.2 Rhaid i Llais gyflwyno ei Gyfrifon Blynyddol drafft i Weinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst fan bellaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

4.3 Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar y Cyfrifon Blynyddol drafft a dim hwyrach na phedwar mis ar ôl cyflwyno'r drafft, gosod copi o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon wedi'u harchwilio gerbron y Senedd.

4.4 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i Llais gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar arfer ei swyddogaethau. Rhaid i Llais gyflwyno'r adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru a gosod copi gerbron Senedd Cymru.

## 5. Cynllunio Busnes

5.1 Ar ôl derbyn Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Llais baratoi a chyflwyno cynllun busnes hirdymor sy'n nodi sut y mae'n cyflawni ei hamcanion strategol ac yn cwmpasu cyfnod tymor Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun busnes tymor hir yn ymgorffori cynllun ariannol a gweithlu lefel uchel.

5.2 Mewn ymateb i lythyr cylch gwaith y Gweinidog a'r datganiad ffurfiol o'i ddarpariaeth gyllidebol flynyddol, mae'n ofynnol i Llais baratoi a chymeradwyo cynllun gweithredol blynyddol sy'n nodi, yn fanwl, sut y bydd y nodau, yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol yn cael eu datblygu yn y flwyddyn nesaf. Cyn cyhoeddi cynllun o dan y paragraff hwn, rhaid i Llais ymgynghori â'r personau hynny sy'n ystyried yn briodol ar ei amcanion a'i flaenoriaethau arfaethedig. Bydd y cynllun, gan gynnwys y cynllun ariannol a gweithlu blynyddol, yn nodi'r lefel o wasanaeth i'w gyflawni mewn meysydd allweddol, gan roi sylw i effeithlonrwydd yr economi.

## 6. Dyletswydd Ariannol

6.1 Mae gan Llais ddyletswydd i sicrhau nad yw gwariant net yn fwy na chyllidebau refeniw net ac adnoddau cyfalaf a gadarnhawyd gan y Gweinidog. Ni chaniateir ymrwymo gwariant net uwchlaw'r cyllidebau hyn nes neu oni bai bod cwmpas cyllideb ddiwygiedig wedi'i gytuno yn ysgrifenedig.

6.2 Ni chaiff Llais dorri rhannau cydrannol cyllidebau refeniw ac adnoddau cyfalaf.

## 7. Rheoli Cronfeydd a Rheolaeth Cyllidebau

7.1 Mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am reoli cyllid gan Lywodraeth Cymru a rheoli cyllidebau Llais. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn unol â chyfarwyddiadau neu ofynion yr adran sy'n noddi a bydd hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ôl yr angen.

7.2 Gall y Swyddog Cyfrifyddu ddirprwyo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am osod a monitro cyllidebau ar lefel cyllideb unigol.

7.3 Bydd y cyllidebau refeniw net ac adnoddau cyfalaf, a gadarnhawyd gan Weinidogion Cymru, yn cael eu hysbysu'n flynyddol yn y Llythyr Cylch Gorchwyl. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu llythyrau atodol os gwneir gwelliannau i ddyraniad cyllideb Llais yn ystod y flwyddyn.

7.4 Bydd Llais yn rhagweld llif arian ac yn paratoi hawliadau chwarterol am gyllid ar y ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru. Gwneir hyn drwy'r hawliad Cymorth Grant (GIA) a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn gofyn am y tynnu arian parod i lawr. Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau yn archwilio ac yn cymeradwyo pob hawliad o'r fath cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

7.5 Caniateir i Llais gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r llall unrhyw falansau arian parod a dynnwyd ond heb eu gwario hyd at 2 y cant o'i gyllideb cymorth grant flynyddol. Rhaid cytuno ar unrhyw gynnig i gario symiau drosodd sy'n fwy na'r swm hwn yn ysgrifenedig ymlaen llaw gyda Chyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r Tîm Partneriaeth, fesul achos. Dylid ystyried unrhyw swm a gariwyd drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno yng nghymorth grant y flwyddyn ganlynol.

7.6 Gellir negodi a chytuno ar gyllid mewn perthynas â phrosiectau penodol, ac sydd uwchlaw'r cyllid yn y Llythyr Cylch Gwaith, gyda'r adran sy'n noddi.

7.7 Os sicrheir cyllid gan sefydliadau eraill ar gyfer ffrydiau gwaith penodol, yna rhaid ceisio awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i'w ddyrannu i'r gwariant cysylltiedig.

7.8 Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr adran noddi, y Tîm Gweithredol, a deiliaid cyllideb eraill yn ôl yr angen i fonitro sut mae Llais yn defnyddio arian.

7.9 Gall Llais drosglwyddo o fewn, ond nid rhwng, y cyllidebau refeniw a'r cyllidebau adnoddau cyfalaf a ddyrannwyd iddo, yn amodol ar y terfynau a'r canllawiau a bennir gan y Prif Weithredwr.

## 8. Trefniadau Bancio

### Awdurdodiad

8.1 Gwneir yr holl drefniadau bancio o dan awdurdod y Prif Weithredwr, sy'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth briodol dros gronfeydd Llais.

**Cyfrif Banc**

8.2 Cedwir un prif gyfrif ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau bancio o ddydd i ddydd.

8.3 Ni fydd unrhyw gyfrifon ychwanegol yn cael eu hagor yn enw, nac ar ran, Llais heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Prif Weithredwr.

**Rheoli Cyfrifon a Llofnodwyr**

8.4 Bydd y Prif Weithredwr, ynghyd â Chyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau, yn awdurdodi agor a chau unrhyw gyfrif banc ac unrhyw drosglwyddiadau arian o'r cyfrif i gyfrif Llais arall (oni bai eu bod yn cael eu gwneud yn awtomatig) yn ysgrifenedig.

8.5 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn cadw copi o'r mandad banc sy'n cynnwys y llofnodion awdurdodedig. Y swyddogion awdurdodedig yw:

- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth a Chysylltiadau Sefydliadol.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau
- Ysgrifennydd y Bwrdd
- Cyfarwyddwr Cyllid

8.6 Mae Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod y bancwyr penodedig yn cael gwybod enw, ynghyd â llofnodion enghreifftiol, pob un o'r swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i agor, cau neu drosglwyddo arian rhwng cyfrifon ac i lofnodi sieciau a gorchmynion o dan y trefniadau hyn ac am unrhyw newidiadau i'r llofnodwyr awdurdodedig hyn.

**Gweithrediadau Prif Gyfrif**

8.7 Fel arfer, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau, Cyfarwyddwr Cyllid a Rheolwr Cyllid fydd yn ymgymryd â rheolaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys taliadau a wneir o dan fancio

electronig. Fodd bynnag, gellir eu cymeradwyo gan unrhyw un sydd ar fandad y banc.

8.8 Bydd y prif gyfrif yn derbyn yr holl daliadau sy'n ddyledus i Llais gan gynnwys taliadau Cymorth Grant mewn perthynas â'r cyllidebau adnoddau refeniw a chyfalaf, unrhyw ddyraniad grant y cytunwyd arno a thaliadau ar gyfer prosiectau neu raglenni gwaith penodedig eraill.

8.9 Gall swyddogion awdurdodedig gymeradwyo amserlenni talu BACS a thaliadau cyflymach fel y manylir yn 8.5 uchod.

8.10 Yn ogystal, caiff taliadau dyledus eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyllid cyn i'r taliad BACS gael ei brosesu a'i gymeradwyo drwy gyfrif banc Llais gan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

8.11 Mae cyflogres yn cael ei gwirio am gywirdeb a'i chymeradwyo i'w thalu gan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gyfrifol am brosesu ac awdurdodi'r taliadau BACS cysylltiedig i staff Llais drwy'r cyfrif banc dynodedig.

8.12 Ni chaniateir tynnu arian parod allan a rhaid cynnal y balansau yn y prif gyfrif ar y lefel ymarferol leiaf.

## 9. Caffael Nwyddau a Gwasanaethau

### Contractau a thendrau

9.1 Mae contract yn ddogfen sy'n sicrhau bod y ddwy ochr yn cyflawni eu rhwymedigaethau priodol yn llawn mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, er mwyn cyflawni'r amcanion busnes a gweithredol ac yn benodol, gwerth am arian.

9.2 Rhaid i bob trefniant ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gydymffurfio â'r gofynion a nodir isod a, lle bo'n berthnasol, cydymffurfio â Deddf Caffael 2023 a'r rheoliadau cysylltiedig.

9.3 Dim ond i gaffaeliadau y mae eu gwerth amcangyfrifedig yn hafal i'r trothwyon statudol a nodir yn adran 9.28 y mae gofynion gweithdrefnol manwl Deddf Caffael 2023 yn berthnasol. Rhaid cynnal caffaeliadau islaw'r gwerthoedd hyn mewn modd sy'n gymesur, yn dryloyw, ac yn gyson ag egwyddorion y Ddeddf o

hyd. Er mwyn eglurder, mae 'caffael islaw'r trothwy'n' gaffael y mae ei gyfanswm gwerth amcangyfrifedig yn llai na throthwy cymwys Deddf Caffael 2023.

9.4 Bydd contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn amodol ar dderbyn tendrau neu ddyfynbrisiau cystadleuol yn unol â'r tabl isod, gan ystyried y gwerth, y risg ac amodau'r farchnad:

| **Gwerth y contract (gan gynnwys TAW)** | **Cystadleuaeth leiaf** | **Ffurf o gontract** | **Awdurdodedig gan** |
|---|---|---|---|
| <£1,000 | Mae tystiolaeth o werth am arian wedi'i chyflawni | Archeb prynu | RGRau, Rheolwr Llywodraethu a Risg, Pennaeth Mewnwelediadau ac Ymgysylltu. |
| £1,001 - £6,000 | Cafwyd tystiolaeth o werth am arian | Archeb prynu | Rheolwr Digidol, Data a Thechnoleg |
| £6,001 - £12,000 | Tystiolaeth o 3 dyfynbris ysgrifenedig | Ffurf syml o gontract / Archeb prynu | Cyfarwyddwyr |
| £12,001 - £30,000 | Tystiolaeth o 3 dyfynbris ysgrifenedig | Ffurf syml o gontract/ Archeb prynu | Aelodau Unigol y Tîm Gweithredol |
| £30,001 – £125,000 | Galwad agored wedi'i hysbysebu am gystadleuaeth.<br>Isafswm o 4 tendr wedi'u derbyn os ydynt ar gael | Contract ffurfiol ag archeb prynu | Prif Weithredwr |
| £125,001 – < trothwy Deddf Caffael sy'n bodoli eisoes | Galwad agored wedi'i hysbysebu am gystadleuaeth.<br>Isafswm o 4 tendr wedi'u derbyn os ydynt ar gael | Contract ffurfiol ag archeb prynu | Bwrdd |
| > Trothwyon Deddf Caffael 2023 | Galwad agored wedi'i hysbysebu am gystadleuaeth.<br>Isafswm o 5 tendr wedi'u derbyn os ydynt ar gael neu'n briodol i'r llwybr caffael | Contract ffurfiol ag archeb prynu | Bwrdd |

* yn amodol ar fodolaeth cyflenwyr addas.

9.5 Mae Llais yn mabwysiadu dull caffael sy'n seiliedig ar risg. Gall

unrhyw gaffael, waeth beth fo'i werth, a ddiffinnir fel 'risg uchel' fod yn destun proses fwy llym nag a fanylir uchod neu ddilyn llwybr caffael gwahanol a ganiateir o dan Ddeddf Caffael 2023. Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Phobl yn penderfynu a yw caffaeliad yn risg uchel.

**Tendrau a Dyfyniadau**

9.6 Tendr yw lle mae cynigion yn cael eu gwahodd gan gontractwyr sydd â diddordeb i gynnal darn o waith yn erbyn manyleb a osodwyd gan Llais.

9.7 Gellir gofyn am ddyfynbrisiau electronig gan gyflenwyr lle mae'r gwerth amcangyfrifedig yn £30,000 neu lai a dylid gwneud cofnod o'r dyfynbrisiau a dderbynnir gan ddangos enw'r cyflenwr, enw cyswllt y cyflenwr, dyddiad y dyfynbris, manylion y gwasanaeth/cynnyrch disgwyliedig, pris ac enw'r swyddog sy'n derbyn y dyfynbris.

9.8 Ar gyfer contractau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023, cynhelir gweithdrefnau caffael yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys llwybrau cyfreithlon fel y Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol, a dim ond lle mae cyfiawnhad cyfreithlon yn berthnasol a bod yr holl hysbysiadau tryloywder gofynnol wedi'u cyhoeddi y caniateir gwneud dyfarniadau uniongyrchol.

9.9 Mae'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol yn llwybr caffael o dan Ddeddf Caffael 2023 sy'n caniatáu i awdurdod contractio gynnal tendr cystadleuol mewn un neu fwy o gamau, gyda hyblygrwydd i addasu gofynion neu feini prawf gwerthuso yn ystod y broses. Mae'n berthnasol i gontractau ar neu uwchben trothwyon a nodir yn 9.28.

9.10 Ni chaiff gweithwyr Llais ac aelodau'r bwrdd eu cyflogi gan Llais fel contractwyr nes bod eu cyflogaeth gyda Llais wedi dod i ben.

9.11 Ni ddylid cytuno ar unrhyw gontract gyda chyn-weithiwr neu gyn-aelod o fwrdd Llais, nad yw wedi bod yn destun y broses dendro/dyfynnu, o fewn 6 mis iddynt adael cyflogaeth Llais, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y Prif Weithredwr.

9.12 Bydd gweithwyr Llais ac aelodau'r bwrdd yn datgan unrhyw gysylltiadau agos, uniongyrchol neu anuniongyrchol, â chontractwyr a byddant yn tynnu'n ôl o unrhyw gyfranogiad mewn prosesau contractio a dendro lle mae buddiant o'r fath wedi'i ddatgan.

9.13 Gall tendrau a dyfarniadau uniongyrchol a gymeradwywyd gan y Bwrdd symud ymlaen trwy gamau gweithredu'r Cadeirydd, yn seiliedig ar unrhyw argymhellion ffurfiol gan y Prif Weithredwr.

## Dyfarniadau uniongyrchol

9.14 Gellir hepgor y weithdrefn dyfynbris/tendro cystadleuol arferol os bydd dyfarniad uniongyrchol, er enghraifft, oherwydd natur arbenigol y contract.

9.15 Mae hyn yn berthnasol i gaffaeliadau islaw'r trothwy a chaffaeliadau ar neu uwchben trothwyon Deddf Caffael 2023, fel y'u diffinnir yn adrannau 9.4 a 9.28.

9.16 Ar gyfer contractau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023, dim ond lle mae cyfiawnhad cyfreithlon yn berthnasol o dan y Ddeddf a bod yr holl hysbysiadau tryloywder gofynnol wedi'u cyhoeddi y caniateir gwneud dyfarniadau uniongyrchol.

9.17 Awdurdodiad ar gyfer dyfarniadau uniongyrchol:

- Bydd contractau gwerth £6,000 - £30,000 yn cael eu hawdurdodi gan y Prif Weithredwr.
- Bydd contractau gwerth uwchben £30,000 yn cael eu hawdurdodi gan y Bwrdd.

9.18 Bydd yr holl ddyfarniadau uniongyrchol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd a, lle bo'n berthnasol, yn cael eu cyhoeddi yn unol â gofynion tryloywder Deddf Caffael 2023.

9.19 Cyhoeddir cofrestr o ddyfarniadau uniongyrchol ar wefan Llais.

9.20 Os yw nifer y dyfynbrisiau/tendrau a dderbynnir yn llai na'r hyn sy'n ofynnol, ac na chaiff ail-hysbysebu ei ddilyn:

- Gall Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau awdurdodi dyfynbrisiau sydd â gwerth llai na £30,000.
- Gall y Prif Weithredwr awdurdodi mwy na £30,000.

Rhaid cyfiawnhau a dogfennu pob penderfyniad.

9.21 Ar gyfer contractau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023, rhaid cyfiawnhau a dogfennu unrhyw benderfyniad i beidio ag ail-hysbysebu yn unol â'r Ddeddf.

**Estyniadau contract**

9.22 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir eithrio estyniadau contract o'r gweithdrefnau dyfynbris/tendro arferol, megis yr angen i sicrhau parhad gwasanaeth neu lle byddai ail-dendro yn anymarferol neu'n anghymesur o gostus.

9.23 Ar gyfer contractau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023, rhaid i unrhyw estyniad neu addasiad fod yn gyfreithlon o dan y Ddeddf a rhaid iddo beidio â newid natur y contract yn sylweddol oni bai ei fod wedi'i ganiatáu.

Rhaid i bob eithriad o'r fath fod:

- Wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr ar gyfer contractau hyd at £30,000, neu
- gan y Bwrdd ar gyfer contractau sy'n fwy na £30,000.

Rhaid dogfennu pob eithriad ynghyd â'r rheswm dros yr eithriad, gwerth y contract, a'r hyd a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

9.24 Rhaid i bob eithriad gydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Canllawiau Cyllidebu Canolog, Deddf Caffael 2023, a rheoliadau caffael perthnasol eraill.

**Lesddaliadau ar gyfer Llety/Gwasanaethau a nwyddau eraill**

9.25 Bydd contractau prydles yn dilyn y trefniadau fel yr amlinellir uchod. Dylid defnyddio cost gyfan y brydles, gan gynnwys taliadau ychwanegol a TAW, i benderfynu ar y lefel briodol o awdurdod sydd ei hangen.

9.26 Rhaid ystyried a yw'r brydles yn ei gwneud yn ofynnol i gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru gael ei gydnabod fel ased hawl i ddefnyddio. Os felly, rhaid ceisio cymeradwyaeth cyn bwrw ymlaen â'r brydles.

9.27 Rhaid awdurdodi unrhyw amrywiadau i brydlesi gwreiddiol yn unol â'r paramedrau a sefydlwyd yn 9.4 uchod.

### Trothwyon Caffael Cyhoeddus

9.28 Fel awdurdod contractio is-ganolog, mae trothwyon Ionawr 2026 lle mae rheolau Deddf Caffael 2023 yn berthnasol ar gyfer pryniannau dros:

- £207,720 ar gyfer Gontractau Cyflenwi, Gwasanaethau a Dylunio
- £5,193,000 ar gyfer gontractau gwaith

9.29 Mae'r trothwyon hyn yn berthnasol i werth y contract trwy gydol ei hyd, gan gynnwys unrhyw estyniadau posibl. Mae trothwyon yn cynnwys TAW.

### Archebion Caffael a Phrynu

9.30 Rhaid caffael pob nwyddau neu wasanaeth trwy godi archeb prynu wedi'i awdurdodi'n briodol. Byddai hyn hefyd yn berthnasol pan fo'r nwyddau a'r gwasanaethau a gaffaelir trwy broses dendro gystadleuol neu lle mae cytundeb cyllido ar waith.

9.31 Caniateir talu am nwyddau a gwasanaethau trwy gerdyn caffael o fewn terfynau diffiniedig. Bydd aelodau o staff yn cael gwneud pryniannau yn amodol ar uchafswm terfyn trafodion unigol a therfyn credyd misol.

9.32 Dim ond ar gymeradwyaeth Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau y bydd cardiau caffael yn cael eu cyhoeddi. Mae deiliaid cardiau yn gyfrifol am awdurdodi a monitro gwariant gan gardiau caffael yn wythnosol.

## 10. Terfynau Cymeradwyo Taliadau

10.1 Dylid prosesu pob pryniant (ac eithrio cardiau caffael) drwy'r broses Cyfrifon Taladwy Partneriaeth Cydwasanaethau. Fodd bynnag, os yw taliad yn frys, ar adegau efallai y bydd angen gwneud trosglwyddiad banc uniongyrchol i gyflenwr neu aelod o staff. Gyda chymeradwyaeth gan y deiliad cyllideb perthnasol, gall y Rheolwr Cyllid uwchlwytho taliadau ar gyfer taliad uniongyrchol drwy'r banc.

10.2 mae cymeradwyaeth yn golygu bod y person sy'n gyfrifol yn fodlon bod:

(i) adnoddau ar gael o fewn y gyllideb i ariannu'r pryniant
(ii) swm yr anfoneb yn unol â swm y dyfyniad / contract

(iii) mae'r pryniant o ansawdd addas
(iv) mae'r cod ariannol yn gyflawn ac yn nodi'n gywir y gyllideb(au) y gwneir y pryniant ohonynt.

## 11. Trefniadau Gwasanaethau a Rennir

11.1 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am sicrhau trefniadau gwasanaethau/adnoddau a rennir effeithlon ac sydd wedi'u rheoli'n dda. Darperir y swyddogaethau a'r gwasanaethau hyn yn unol â'r telerau a nodir mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA) y cytunwyd arnynt.

11.2 Bydd unrhyw swyddogaethau o'r fath yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Llais.

Darperir yr ystod o wasanaethau a rennir a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Llais gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:

- Cyflogres – system, prosesu a chyngor
- Pensiynau – system, prosesu a chyngor
- Recriwtio – hysbysebu, prosesu a gwiriadau chyn-gyflogaeth
- Treuliau Teithio – system, prosesu a chyngor
- Gwerthuso Swyddi – mynediad at baneli paru, gwirio cysondeb ac adolygu
- Gwasanaethau Gwybodaeth y Gweithlu a rheolaeth hierarchaeth system ESR
- Cyllid - prosesu (rhannol) cyfrifon sy'n daladwy a chynnal a chadw'r llyfr cyfrifon.
- Caffael – prosesu (rhannol) a chyngor.
- Archwiliad Mewnol
- Gwasanaethau Cyfreithiol Cyflogaeth.
- Cyfieithu Cymraeg
- Gwrth-dwyll Lleol
- Trosglwyddo eiddo

## 12. Asedau

### Gwariant Cyfalaf

12.1 Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddiffinio fel:

'Prynu neu greu asedau gwerth £5,000 neu fwy (heb gynnwys TAW) a fydd yn darparu budd economaidd neu weithredol am fwy nag un flwyddyn.'

12.2 Dim ond lle mae cyllid cyfalaf penodol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru y caniateir prynu cyfalaf

12.3 Nid yw Llais yn grwpio nac yn agregu eitemau unigol i gyrraedd y trothwy cyfalafu o £5,000. Caiff pob eitem ei hasesu ar wahân i benderfynu a yw'n gymwys fel gwariant cyfalaf.

**Cofrestr Ased.**

12.4 Cedwir cofrestr o'r holl asedau cyfalafedig yn unol â'r diffiniad yn 12.1

12.5 Cynhelir gwiriad ffisegol o'r asedau hyn ddwywaith y flwyddyn.

**Direfyddu ac Amorteiddio**

12.6 Darperir dibrisiant ac amorteiddio ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost hanesyddol asedau wedi'u cyfalafu ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol yr asedau.

| Ased | Bywyd economaidd defnyddiol tybiedig |
|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth | pum mlynedd |
| 1.8 Asedau Anhygyrch | pum mlynedd |
| 1.9 Hawliau Defnyddio Asedau | Dros oes y contract |
| Gwelliannau i lesddalwyr | Dros weddill oes y brydles |

**Gwaredu asedau**

12.7 Bydd eitemau sydd wedi darfod, yn ddarfodedig, yn ddiangen ac yn anadferadwy neu na ellir eu hatgyweirio yn gost-effeithiol yn cael eu gwaredu yn amodol ar awdurdodiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

## 13. Cofnodi a Chasglu Incwm

13.1 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am gofnodi'n briodol a'i gasglu'n brydlon o'r holl arian sy'n ddyledus.

13.2 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn sicrhau bod yr holl gyfrifon heb eu talu yn cael eu cynyddu'n rheolaidd, gan gynnwys trefniadau o dan gontract gydag asiantaethau casglu dyledion.

13.3 Ni fydd dyledion sy'n ddyledus i Llais yn cael eu dileu ac eithrio fel yr amlinellir yn Adran 16.

## 14. Talu Staff ac Aelodau'r Bwrdd

14.1 Rhaid hysbysu Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chyfarwyddwr Cyllid ar unwaith am bob penodiad newydd ac am unrhyw amrywiad ym mand neu bwynt cyflog unrhyw berson sydd eisoes yn gweithio i Llais.

14.2 Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol sy'n gyfrifol am weinyddu cyflogres ac am sicrhau nad yw taliad yn cael ei wneud ac eithrio i'r gweithiwr priodol neu i

enwebai a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y cyflogai i'w dderbyn ar ran y cyflogai.

14.3 Bydd pob gweithiwr newydd sy'n cael ei dalu ar sail gyflog flynyddol neu ran gymesur ohono yn cael ei dalu'n fisol drwy drosglwyddiad credyd banc.

14.4 Ni fydd taliadau fel arfer yn cael eu gwneud cyn diwrnod cyflog arferol ac eithrio mewn achosion arbennig a awdurdodir gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau .

14.5 Dylid anfon hysbysiad o derfynu cyflogaeth/aelodaeth, yn achos Aelodau'r Bwrdd, at Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chyfarwyddwr Cyllid mewn perthynas â'r ymddiswyddiad, ymddeoliad neu ddiswyddiad cyn gynted ag y bydd y dyddiad dod i rym yn hysbys.

14.6 Bydd Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gyfrifol am ddarparu dogfennau i'r Partneriaeth Cydwasanaethau yn ymwneud â phensiwn, treth, a materion tebyg.

## 15. Taliadau treuliau i staff, aelodau'r bwrdd a gwirfoddolwyr

15.1 Bydd treuliau staff ac aelodau'r Bwrdd yn cael eu cymeradwyo gan y rheolwr llinell priodol yn unol â threuliau SEL a'u prosesu drwy'r

gyflogres.

15.2 Gall treuliau gwirfoddolwyr hyd at £500 gael eu cymeradwyo gan eu Rheolwr Gweithrediadau Rhanbarthol. Rhaid cymeradwyo taliadau uwchben y terfyn hwnnw yn unol â'r paramedrau a sefydlwyd yn 9.4.

15.3 Telir treuliau gwirfoddolwyr drwy'r broses cyfrifon yn daladwy.

## 16. Colledion: Iawndal/ Yswiriant

16.1 Bydd gan bob swyddog gyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelwch asedau Llais ac am osgoi colledion.

16.2 Gall y Prif Weithredwr awdurdodi na chymerir unrhyw gamau pellach i adennill symiau heb eu talu.

16.3 Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, dylid tynnu sylw Gweinidogion at golledion, drwy nodi hynny yn y cyfrifon blynyddol.

16.4 Darperir taliadau iawndal ex-gratia i staff am golli neu ddifrodi eiddo personol, a ddigwyddwyd tra ar ddyletswydd, yn yr Amodau Gwasanaeth, gyda phenderfyniadau a wneir gan y Prif Weithredwr yng ngoleuni teilyngdod hawliadau unigol.

16.5 Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, nid yw Llais yn prynu yswiriant masnachol ar gyfer ei asedau oni bai ei fod wedi'i rwymo'n gyfreithiol i wneud hynny neu'n dod i'r casgliad y byddai'n gost-effeithiol gwneud hynny.

## 17. Archwiliad

17.1 Yn unol â'i sail statudol, archwilydd allanol Llais yw Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(a) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad cyfrifon a chyn diwedd 4 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y cyflwynir y datganiad cyfrifon, gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gopi o'r datganiad a'r adroddiad ardystiedig, neu

(b) os nad yw'n rhesymol ac yn ymarferol i gydymffurfio â pharagraff (a), bydd datganiad i'r perwyl hwnnw, ac y mae'n rhaid iddo gynnwys rhesymau pam mae hyn yn wir.

17.2 Bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn pennu amserlen a phroses yr archwiliad drwy gytundeb ag Ysgrifennydd y Bwrdd.

17.3 Mae Dogfen Fframwaith Llais yn cyfarwyddo y dylai Llais drefnu swyddogaeth archwilio fewnol yn unol â'r amcanion, y safonau a'r arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

17.4 Bydd Archwilio Mewnol yn darparu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn manylu ar lefel y sicrwydd y gellir ei roi ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol.

## 18. Gwrth-dwyll

18.1 Mae Llais yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff weithredu'n onest ac yn union a diogelu'r adnoddau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt. Ni fydd Llais yn derbyn unrhyw lefel o dwyllo, llwgrwobrwyo na llygredd. Bydd pob achos o'r fath yn cael ei ymchwilio'n drylwyr a'i drin yn briodol.

18.2 Yn unol â'r Polisi Gwrth-dwyllo, anogir pob aelod o staff i roi gwybod am unrhyw amheuon o dwyllo, llwgrwobrwyo a llygredd yn gynnar. Dylai staff roi gwybod am unrhyw amheuon o'r fath i'w rheolwyr llinell, neu drwy eu cadwyn reoli llinell, a fydd yn rhoi gwybod yn briodol i Ysgrifennydd y Bwrdd.

## 19. Cadw Cofnodion Ariannol

### Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

19.1 Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am gynnal archifau ar gyfer yr holl gofnodion y mae'n ofynnol eu cadw yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru, Deddfwriaeth Diogelu Data Cyffredinol y DU ac unrhyw ystyriaethau cyfraith ddomestig berthnasol drwy Ddeddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (c. 36).

19.2 Bydd y cofnodion a gedwir mewn archifau yn gallu cael eu hadfer gan bersonau awdurdodedig.

19.3 Dim ond yn unol â'r deddfau diogelu data perthnasol a thrwy annog penodol y Prif Weithredwr y caiff cofnodion a gedwir eu dinistrio. Cedwir manylion cofnodion a ddinistriwyd felly.